*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Hydref 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol 01745 352785** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22, i'w gymeradwyo.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Fframwaith CIPFA/Solace, *Delivering Good Governance in Local Government Framework* (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Cafodd y Datganiad Llywodraeth Blynyddol drafft cyntaf 2021/22 ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022 ac yna cafodd ei gyflwyno i'r archwilydd allanol i gadarnhau a oedd yn gyson ai peidio â'r Fframwaith ac â datganiadau ariannol yr Awdurdod.

4 Erbyn hyn, mae sylwadau a gafwyd gan yr archwilydd allanol wedi cael eu hymgorffori yn y drafft terfynol (Atodiad 1) er mwyn cael cymeradwyaeth yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r newidiadau a wnaed i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22; a
(ii) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22.

## CEFNDIR

6 Ers 2010/11, mae'n rhaid i bob corff llywodraeth leol, dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

7 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol yn bodoli ymhob rhan o'r sefydliad.

8 Yn 2016, roedd CIPFA a Solace wedi cyhoeddi fframwaith llywodraethu newydd, sef *Developing Good Governance in Local Government: Framework* (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i drefnu o gwmpas saith o egwyddorion llywodraethu, sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol ac i nodi sut mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau'r canlynol:

(i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
(ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a
(iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd o fudd i bobl yr ardal.

**GWYBODAETH**

10 Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'n darparu trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2022/23.

11 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i adnabyddiaeth o'r Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

12 Erby hyn, mae sylwadau a gafwyd gan Archwilio Cymru wedi cael eu hadlewyrchu yn y drafft diwygiedig sydd yn Atodiad 1. Yn gryno, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- mân gywiriadau (rhifau tudalennau, cyfeiriad at yr Archwilydd Cyffredinol ac ati)
- darparu esboniad llawnach o effaith pandemig Covid-19 ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn ystod 2021/22. (tud.3)
- ychwanegu hyperddolenni i gyhoeddiadau eraill Archwilio Cymru, a rhoi esboniad pellach o oblygiadau'r rheini i ATAGC. Yn benodol, roedd y rhain i'w adolygiad o Gadernid Corfforaethol yr Awdurdod (gan nodi bod angen i'r Aelodau chwarae rhan fwy canolog yn mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth), ac i adroddiad cenedlaethol ar Gydweithio rhwng Gwasanaethau Brys. (tudalennau 9 a 12)

- cynnwys nodyn yn esbonio bod perfformiad mewn perthynas â meysydd risg a blaenoriaeth allweddol hefyd yn destun craffu gan archwilio mewnol (h.y. nid dim ond y datganiad o gyfrifon). (tud.11)
- darparu adroddiadau cynnydd am ddau gam gweithredu yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 nad oedd wedi cael eu cwblhau'n llwyr y flwyddyn honno ond na chafodd eu cario drosodd i gynllun gweithredu 2021/22. Roedd y rhain yn ymwneud â gwreiddio cylch blynyddol unedig o gamau Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Ariannol, ac adolygu'r Safonau Ymddygiad i staff. (tud.13)
- cyfeirio at adroddiad gan Archwilio Cymru am gynnydd yr Awdurdod wrth leihau allyriadau carbon, a oedd wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod yn annhebygol o gyrraedd statws carbon sero net erbyn 2030 heb newid sylweddol yn y perfformiad. (tud.14)
- rhoi rhagor o esboniad am y cynnydd tuag at gael ardystiad Cyber Essentials Plus, a chynnwys datganiad pendant na lwyddwyd i wneud hyn yn 2021/22 felly mae wedi cael ei gario drosodd i gynllun gweithredu 2022/23. (tud.14)
- cynnwys casgliad cyffredinol ynghylch cydymffurfiaeth yr Awdurdod ag egwyddorion y Cod Rheoli Ariannol (daeth y gofyniad hwn i rym yn 2021/22). (tud.20)

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant hirdymor ATAGC, ac mae'n dangos y trefniadau llywodraethu sy'n bodoli i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei lunio yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith llywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yn yr Awdurdod. |